# Cynllun Cydraddoldeb Strategol: Ein cynnydd

## 2023-2024

ROYAL WELSH COLLEGE
OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL
CERDD A DRAMA CYMRU

www.rwcmd.ac.uk

# Rhagymadrodd

**Yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, caiff ein hymrwymiad i gydraddoldeb ei gryfhau gan rym gweithio mewn partneriaeth. Mae cydweithredu wrth wraidd ein cynnydd, gan ganiatáu i ni rannu gwybodaeth, adnoddau ac arferion gorau i ysgogi newid ystyrlon.**

Trwy weithio'n agos gyda'n partneriaid, gan gynnwys grwpiau cymunedol, rhwydweithiau eiriolaeth, a sefydliadau celfyddydol eraill, gallwn nodi a mynd i'r afael yn well ag anghydraddoldebau, gan sicrhau bod ein polisïau a'n harferion yn creu amgylchedd teg a chynhwysol i bawb.

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r camau breision yr ydym wedi'u cymryd dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ddangos effaith ein hymdrechion i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae hefyd yn myfyrio ar yr heriau rydym yn parhau i'w hwynebu a'r camau sydd eu hangen ar y cyd i ysgogi cynnydd pellach. Trwy bartneriaethau cryf gallwn adeiladu dyfodol tecach lle mae gan bawb gyfle i ffynnu.

# Ein cynnydd

## Myfyrwyr

- Rydym wedi gweithio i ddatblygu targedau recriwtio myfyrwyr, yn benodol yn ymwneud ag anabledd ac ethnigrwydd, gan ystyried cyfraddau gadael. Mae ein strategaeth Addysg yn sicrhau bod amrywiaeth yn y corff myfyrwyr yn ffocws allweddol wrth symud ymlaen.
- Sicrhaodd y tîm Recriwtio Myfyrwyr bartneriaethau i helpu i godi ymwybyddiaeth o'n cyrsiau ymhlith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, megis y Gronfa Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach.
- Mae ein Partner Ymgysylltu Cymunedol yn cydweithio â sefydliadau megis Race Council Cymru, UCAN, cwmni theatr Taking Flight, a Hijinx i ddeall a mynd i'r afael â'r rhwystrau y mae myfyrwyr amrywiol yn eu hwynebu.
- Gwnaethom gynnal gweithdai am ddim yn yr Hen Lyfrgell ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig, sicrhau bod Diwrnodau Agored mor hygyrch â phosibl, a chefnogi presenoldeb myfyrwyr mewn perfformiadau byw.
- Cymerodd tîm o fyfyrwyr a staff ran yn hyfforddiant Nod Siarter Hil AdvanceHE, gan baratoi ar gyfer ein cynnwys yng nghais Prifysgol De Cymru yn 2024/25.

# Astudiaeth achos - Treasure Island

### Gwneud ein straeon yn gynhwysol, 'Treasure Island', Integreiddio Iaith Arwyddion Prydain

Ym mis Rhagfyr 2024, fe wnaeth Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru lansio 'Treasure Island' ar ei newydd wedd a oedd yn integreiddio'n llwyr ag Iaith Arwyddion Prydain, gan wella hygyrchedd i gynulleidfaoedd Byddar a gwreiddio arferion cynhwysol ym mhob cam o'r broses gynhyrchu.

Bu Anna, sy'n actores a  dehonglydd, yn gweithio ochr yn ochr â myfyrwyr sy'n perfformio, cyfarwyddwyr ac ymgynghorwyr Byddar i wneud Iaith Arwyddion Prydain yn elfen greadigol a chanolog. Roedd hyn yn cynnwys ail-ddychmygu'r ddeinameg rhwng cymeriadau, llwyfannu ac ymarferion i sicrhau bod cynulleidfaoedd Byddar yn rhannu holl gyfoeth y stori.

Roedd y broses hefyd yn helpu myfyrwyr i ddeall pŵer a chreadigrwydd theatr hygyrch:

**'Roedd yn ychwanegu cymaint o swyn a gwir ymdeimlad o gymuned.'**
**Hannah McQuair,**
**Rheolwr Llwyfan Cynorthwyol**

**'Dysgais pa mor bwysig yw hygyrchedd, a pha mor greadigol y mae'n gall bod ac y dylai fod.'**
**Kellie-Gwen Morgan,**
**Prif Actor**



# Astudiaeth achos - The Winter's Tale

## Datblygu Cwricwlwm Cynhwysol: rhoi 'The Winter's Tale' mewn cyd-destun

Mae dramâu clasurol yn aml yn peri heriau o ran cynhwysiant, gyda'u normau cymdeithasol hen ffasiwn a'u cynrychiolaeth gyfyngedig. Fe aeth cynhyrchiad y Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru o 'The Winter's Tale' i'r afael â hyn drwy ganolbwyntio ar gynhwysiant wrth gastio ac yn ei ddehongliad.

Roedd y cynhyrchiad yn cynnwys cast amrywiol, gan gynnwys pedwar actor o dras Affricanaidd. Yn hytrach na anwybyddu eu hunaniaethau hil, fe wnaeth y cynhyrchiad yn eu cofleidio, gan blethu themâu Affrosentrig i'r dull o adrodd y stori. Ail-fframiwyd cenfigen a drwgdybiaeth Leontes o'i wraig a'i ffrind gorau – y prif ddigwyddiad ysgogol yn y ddrama – drwy waith sydd wedi'i gyhoeddi ar theori hil. Defnyddiwyd yr ymchwil hon ar etifeddu hiliaeth a rhagfarnau ac felly roedd modd archwilio hiliaeth ddiarwybod a etifeddwyd fel pwnc. Cyflwynwyd Leontes fel dyn gwyn Prydeinig cyfoethog gyda gwraig Affricanaidd Prydeinig a chyfaill oes Affricanaidd Americanaidd.

> 'Roedd y cynhyrchiad yn cynnwys cast amrywiol, gan gynnwys pedwar actor o dras Affricanaidd. Yn hytrach na anwybyddu eu hunaniaethau hil, fe wnaeth y cynhyrchiad yn eu cofleidio, gan blethu themâu Affrosentrig i'r dull o adrodd y stori.'

Roedd y dull hwn yn caniatáu gosod cyd-destun cyfoes a hygyrch y gallai'r myfyrwyr ymgysylltu'n ddwys ag ef – yn enwedig yr actorion o liw sy'n aml yn cael trafferth dod o hyd i gynrychiolaeth mewn gweithiau clasurol. Drwy anrhydeddu amrywiaeth y cast a gwreiddio egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, roedd y cynhyrchiad yn dangos nad yw testunau clasurol yn greiriau statig ond yn weithiau byw, y gellir eu haddasu er mwyn siarad am faterion cyfoes a mynd i'r afael â nhw. Drwy ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth galon ein cwricwlwm, rydym yn paratoi ein myfyrwyr i fod yn berfformwyr medrus, a hefyd i fod yn artistiaid myfyriol ac ymroddedig sydd ag ymwybyddiaeth gymdeithasol ac yn gallu llywio dyfodol byd y theatr.

# Ein cynnydd

## Cymuned

- Mae ein partneriaeth â Craidd yn dod â chwmnïau theatr prif ffrwd Cymru at ei gilydd i ysgogi newid cynaliadwy a gwella cynrychiolaeth pobl anabl ym myd y theatr.
- Rydym wedi ymgorffori Iaith Arwyddion Prydain (BSL) mewn sioeau Nadolig i'r teulu ac wedi cyflwyno capsiynau creadigol yn ein perfformiadau pypedau haf.
- Mae ein Partner Ymgysylltu Cymunedol yn parhau i feithrin perthnasoedd newydd i hwyluso digwyddiadau wedi'u curadu gan y Coleg, ar y safle ac yn y gymuned ehangach.
- Mae'r Coleg yn cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol sy'n cynnwys Mis Pride, y Flwyddyn Newydd Leuadol, a Diwrnod Myfyrwyr Anabledd, trwy ddeunydd cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol.
- Lansiwyd ein partneriaeth breswyl newydd gyda'r Gerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol, gan fuddsoddi mewn adnoddau a chyfleusterau staff.

# Astudiaeth achos - Windrush Cymru

## Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Hynafgwyr Windrush Cymru – Partneriaeth ym maes cynhwysiant a chyfnewid diwylliannol

Mae cydweithrediad Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru â Hynafgwyr Windrush Cymru yn dangos pŵer cynhwysiant dan arweiniad y gymuned. Mae cyfarfodydd wythnosol ar y campws yn cefnogi cyfnewid diwylliannol rhwng y cenedlaethau, gyda Hynafgwyr yn cyfrannu at drefnu a chyd-greu digwyddiadau cyhoeddus.

Un o'r uchafbwyntiau oedd cyngerdd cydweithredol gyda'r cerddor jazz, Dennis Rollins, gan gyfuno perfformiad gan y myfyrwyr â threftadaeth gerddorol yr Hynafgwyr i ddathlu Jazz Calypso.

Mae'r Coleg hefyd yn cefnogi cyfranogiad Hynafgwyr drwy'r Rhwydwaith Tempo Time Credits, sy'n rhoi mynediad i ddigwyddiadau celfyddydol yn gyfnewid am eu hamser – dileu rhwystrau ariannol a meithrin gwir bartneriaeth.

Mae'r cydweithio hwn yn dangos sut gall sefydliadau blethu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i fywyd bob dydd, gan greu perchnogaeth ar y cyd a thwf ar y cyd.

**'Un o'r uchafbwyntiau oedd cyngerdd cydweithredol gyda'r cerddor jazz, Dennis Rollins, gan gyfuno perfformiad gan y myfyrwyr â threftadaeth gerddorol yr Hynafgwyr i ddathlu Jazz Calypso.'**



# Ein cynnydd

## Staff

- Cyflwynwyd hyfforddiant rhagfarn ddiarwybod a gwrth-hiliaeth yn ystod sesiynau hyfforddi staff a ddarparwyd gan Theatr Tonic.
- Cyflwynwyd recriwtio dienw ar gyfer swyddi gwag yn y Coleg, gan sicrhau bod manylion a allai ddylanwadu ar ragfarn yn cael eu tynnu oddi ar geisiadau a CVs.
- Rydym yn gweithio i amrywio aelodaeth pwyllgorau er mwyn adlewyrchu'n well y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.
- Cynhaliwyd archwiliad o fewnrwyd y staff a'r myfyrwyr, yr Hyb, i asesu materion hygyrchedd mewn systemau mewnol, ac mae cynllun gweithredu bellach yn ei le.
- Cyflwynwyd canllawiau brand sy'n amlinellu'n glir safonau hygyrchedd.
- Mae capsiynau i'r holl allbwn cyfryngau cymdeithasol ac maent cynnwys tagiau alt priodol.
- Mae'r Coleg yn parhau i gymryd rhan mewn Adolygiadau Cyflog Cyfartal fel rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru, gan roi camau gweithredu ar waith o'r Cynlluniau Gweithredu Cyflog Cyfartal sy'n deillio o'r adolygiadau.
- Rydym yn gwella'r broses o gasglu, dadansoddi a monitro data cydraddoldeb i lywio ein strategaethau ar gyfer sicrhau mwy o amrywiaeth yn y corff myfyrwyr a chefnogi datblygiad gyrfa ymhlith staff.

# Astudiaeth achos - Tonic Theatre

## Hyfforddiant Tonic Theatre

Nododd y coleg fod angen hyfforddiant arbenigol sy'n mynd i'r afael â dynameg unigryw'r sector celfyddydau perfformio. Mewn cydweithrediad â Tonic Theatr, trefnodd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru gyfres o sesiynau hyfforddi wedi'u teilwra ar gyfer ei staff a'i fyfyrwyr. Roedd y sesiynau hyn yn cwmpasu sawl agwedd ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys:

- **Rhagfarn ddiarwybod:** Deall a lliniaru rhagfarnau diarwybod sy'n gallu effeithio ar benderfyniadau a rhyngweithio.
- **Creu amgylcheddau cynhwysol:** Strategaethau i feithrin awyrgylch croesawgar a chefnogol yng nghymuned y coleg. tonictheatre.co.uk
- **Hanfodion cynghreiriaeth:** Grymuso staff i fynd ati'n ymarferol i gefnogi grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.

Roedd y gweithdai hyn yn rhoi adnoddau ymarferol ac yn meithrin trafodaethau agored, gan alluogi staff i bwyso a mesur eu rolau o ran hyrwyddo cynhwysiant. Mae cydweithrediad y Coleg â Tonic Theatre yn enghraifft o ddull rhagweithiol y coleg o integreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn niwylliant ei sefydliad.





**ROYAL WELSH COLLEGE**
OF MUSIC & DRAMA
**COLEG BRENHINOL**
CERDD A DRAMA CYMRU

**www.rwcmd.ac.uk**